

Cadw'n Ddiogel. Stay Safe.
Dal ati i Ddysgu. Stay Learning.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffrydio byw – arferion ac egwyddorion diogelu i ymarferwyr addysg



Parhad dysgu

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn ddramatig. Mae'r sefyllfa anodd yma wedi amharu ar y system addysg, ond mae'r system addysg yn dal yn hollbwysig.

Yn ystod y cyfnod hwn pan nad yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu mynychu lleoliadau addysgol ac ysgolion yn bersonol, mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gweithio ar draws y system addysg mewn nifer o ffyrdd i gynnig cefnogaeth i arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r gwaith hwnnw, ac yn gysylltiedig â gweithgareddau'r rhaglen parhad dysgu, 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu'.

Hoffem ddiolch i'r partneriaid canlynol am eu cyfraniadau:

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Awdurdodau Lleol ac Esgobaethol

Estyn

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

hwb.gov.wales/dysgu-o-bell

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Y cefndir – cymharu dysgu cydamserol â dysgu anghydamserol.....	2
Y prif egwyddorion – Diogelu wrth galon y gwaith	4
Y prif ystyriaethau – Arferion diogel wrth ffrydio'n fyw	5
Cynllunio gofalus	5
Lleoliad a gosodiadau'r camera	5
Ymddygiad proffesiynol.....	6
Recordio sesiynau ffrydio byw.....	6
Ymddygiad y dysgwyr	7
Rhagor o gefnogaeth a help	8
Atodiad 1 – Cwestiynau cyffredin	9
Atodiad 2 – Cytundeb enghreifftiol i'w ddefnyddio gyda gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw.....	11

Y cefndir – cymharu dysgu cydamserol â dysgu anghydamserol

Mae'r canllawiau [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu – Cefnogi'r system addysg](#) yn amlinellu'r camau y dylai penaethiaid ac uwch arweinwyr eu cynllunio, er mwyn sicrhau cyswllt rheolaidd â dysgwyr.

- a. Dylai penaethiaid ac uwch arweinwyr ddefnyddio canllawiau a datblygu'r ffordd mae eu hysgol neu leoliad addysgol yn cynnig cyfuniad o gyfleoedd dysgu o bell hyblyg i ddysgwyr, ar-lein ac all-lein – yn y cartref ac mewn Hyb. Mae dysgu o bell yn gallu:
 - digwydd yn fwy annibynnol ar wahanol amseroedd, ar sail dymuniadau'r dysgwr neu amgylchiadau'r cartref (**anghydamserol**)
 - digwydd gyda mwy nag un dysgwr ac athro ar yr un pryd, ar-lein fel arfer (**cydamserol**).
- b. Mae dulliau anghydamserol yn cynnig mwy o hyblygrwydd, ac yn gallu bod yn haws i rieni/gofalwyr a dysgwyr eu defnyddio yn y cartref. Felly, dyma'r prif ddull y dylai ysgolion a lleoliadau addysgol ei ystyried wrth drefnu dysgu o bell.
- c. Mae dulliau cydamserol, fel ffrydio fideo byw, yn gallu bod yn ymarferol ac yn briodol mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig i gefnogi lles ac ymgysylltiad y dysgwyr. Mae gwersi cydamserol, neu wersi 'ffrydio byw' gyda dysgwyr, yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn hefyd i gadw mewn cysylltiad â dysgwyr. Mae gwersi ffrydio byw wedi cael eu defnyddio'n dda mewn nifer o ardaloedd, lle mae mynediad at bynciau neu gyrsiau penodol yn gyfyngedig am resymau daearyddol; un fantais yw bod modd rhoi adborth i'r dysgwyr, ac asesu'r hyn maen nhw'n ei ddysgu, yn syth ac mewn ffordd ryngweithiol.
- d. Os bydd lleoliad addysgol yn dewis defnyddio dulliau cydamserol fel ffrydio byw, rhaid i gyrrff llywodraethu, penaethiaid a staff ystyried canllawiau diogelu lleol yn llawn.
- e. Dylai unrhyw ffrydio byw ddigwydd yn wirfoddol – ni ddylid mynnu bod staff yn ffrydio gwersi yn fyw.
- f. Yng Nghymru, mae gan bob ysgol a gynhelir fynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein drwy Hwb, fel [Microsoft Office 365¹](#) sy'n cynnwys Microsoft Teams. Mae Microsoft Teams yn gallu darparu profiad rhyngweithiol, a chyfle i gydweithio ac ymgysylltu mewn ffordd ddiogel a hygyrch.
- g. Bydd penderfyniadau ar lefel yr ysgol yn pennu a yw ffrydio byw yn ffordd briodol i chi gynnal gwersi gyda'ch dysgwyr. Fel sy'n wir mewn unrhyw leoliad ysgol, y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol sy'n llwyr atebol. Felly, rhaid dilyn y canllawiau hyn ochr yn ochr â chanllawiau awdurdodau lleol.

¹ hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/microsoft/office-365/

- h. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell:
- y dylai pob gwern sy'n cael ei ffrydio'n fyw gael ei chynnal ar Microsoft Teams drwy Hwb, yn hytrach na darparwr allanol
 - bod yr athrawon yn defnyddio dyfais sydd wedi'i darparu gan yr ysgol
 - y dylid cyfeirio'n briodol at yr ystyriaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch dysgwyr yn cael eich gwarchod a'ch diogelu'n briodol.

Y prif egwyddorion – Diogelu wrth galon y gwaith

- a. Diogelu dysgwyr a'u lles yw'r peth pwysicaf, ac mae hynny'n cael blaenoriaeth dros yr holl ystyriaethau eraill.
- b. Dylech barhau i ddilyn polisiâu diogelu'ch ysgol bob amser. Dylid delio â phob mater sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein yn yr un ffordd ag y byddech yn delio â mater sy'n ymwneud â dysgu wyneb-yn-wyneb.
- c. Dylai polisiâu diogelwch ar-lein ysgolion, lles staff a dysgwyr, a pholisiâu diogelu a dysgu o bell, adlewyrchu sut bydd gwaith ffrydio byw yn cael ei wneud a'i fonitro. Mae [offeryn 360 degree safe Cymru](#)² ar gael am ddim ar Hwb, a phwrpas yr offeryn yw helpu ysgolion i adolygu eu harferion a'u polisiâu diogelwch ar-lein.
- d. Rhaid dilyn y polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am achosion o gamddefnyddio bob amser. Fel yr amlinellir yn y [canllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel](#)³, mae gan athrawon ddyletswydd i roi gwybod os oes plentyn mewn perygl (gan gynnwys cam-drin ar-lein) o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- e. Os oes gennych chi unrhyw bryderon diogelu am blentyn, dylech eu trafod â'r Uwch Berson Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant ar gyfer eich ysgol, gan sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am eich pryderon cyn gynted â phosib.
- f. Os na allwch chi gysylltu â'r Uwch Berson Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant ar gyfer eich ysgol am unrhyw reswm, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Plant yn yr awdurdod lleol a rhoi gwybod am eich pryderon.
- g. Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl y funud honno, cysylltwch â'r heddlu ar 999.
- h. I gael rhagor o gyngor ar ddiogelu yn ystod y cyfnod hwn, ewch i [wefan Llywodraeth Cymru](#).

² hwb.gov.wales/zones/online-safety/repository/resource/6f3b56cd-439c-49a9-bc64-696223b85466/cy

³ llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Y prif ystyriaethau – Arferion diogel wrth ffrydio'n fyw

Cynllunio gofalus

Bydd cynllunio yn hollbwysig i sicrhau bod gwers sy'n cael ei ffrydio'n fyw yn wers lwyddiannus a diogel. Rhaid i ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- a. Ystyried pwrpas, manteision a chyfyngiadau gwers sy'n cael ei ffrydio'n fyw.
- b. Ystyried a yw dull arall yn fwy addas, e.e. os yw'r athro yn bwriadu dangos sut mae gwneud rhywbeth, efallai y byddai fideo yn fwy addas.
- c. Meddwl pa ddysgwyr fydd ar gael, e.e. a fydd yr **holl** ddysgwyr ar gael, a fydd angen i rai ymuno neu adael ar adegau gwahanol? Argymhellir ystyried nifer y dysgwyr ar sesiwn.
- d. Sicrhau bod hyd y gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw yn addas ar gyfer eich dysgwyr.
- e. Ystyried argaeledd/cryfder cysylltiad rhwydwaith pob dysgwr, a chymryd camau i ddarparu'r amodau gorau posib ar gyfer cysylltiad sefydlog os bydd angen (h.y. darparu dyfeisiau MiFi). Os yw'n debygol y bydd anghydraddoldeb o ran mynediad oherwydd materion yn ymwneud â chysylltedd, caledwedd, gofalu am frodyr neu chwiorydd neu unrhyw reswm arall, efallai y byddwch chi am ystyried fformatau eraill ar gyfer gwersi.
- f. Sicrhau bod y wers yn cael ei chynllunio ymlaen llaw, a dylid rhoi digon o rybudd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn ôl yr angen.
- g. Gofyn am ganiatâd gan uwch dîm rheoli'ch ysgol i ffrydio gwersi'n fyw, a rhoi gwybod iddyn nhw beth yw'r amserlen ar gyfer pob gwers.
- h. Gwneud yn siŵr bod yr holl gynnwys yn briodol, ac ar gyfer unrhyw dasgau a fydd yn golygu gwneud ymchwil ar-lein, gwneud yn siŵr bod y gwefannau'n addas cyn y wers.
- i. Dylech sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad at raglenni meddalwedd angenrheidiol – mae Hwb yn gallu hwyluso'r gwaith hwn.
- j. Os yw'r wers yn cynnwys tasgau, cofiwch y bydd angen mwy o amser ar rai dysgwyr o bosib.
- k. Gwneud yn siŵr bod cytundebau defnydd priodol yn eu lle ar gyfer yr holl ddysgwyr sy'n rhan o wers sy'n cael ei ffrydio'n fyw. Bydd y cytundeb yn nodi disgwyliadau clir pob parti, ac yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd os na fydd rhywun yn cydymffurfio â'r cytundeb. Darllenwch y cytundeb enghreifftiol isod i'w ddefnyddio gyda dosbarthiadau ar-lein (Atodiad 2).
- l. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â nodweddion Microsoft Teams, ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhaglen yn effeithiol (mae rhagor o wybodaeth ar gael yng [Nghanolfan Cymorth Hwb](#)).

Lleoliad a gosodiadau'r camera

Mae hi'n hanfodol eich bod yn ystyried lleoliad a gosodiadau'r camera'n ofalus er mwyn bod yn broffesiynol ac yn gyfrifol drwy'r amser. Rhaid i ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- a. Dewis lleoliad niwtral sy'n addas ac yn ddiogel. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis lleoliad priodol (e.e. ystafell fyw, stydi neu gegin). Mae Microsoft Teams yn eich galluogi i newid eich cefndir, neu ei wneud yn aneglur. Argymhellir eich bod chi a'ch dysgwyr yn defnyddio'r cyfleuster hwn.
- b. Ystyried yn ofalus beth sydd i'w weld o flaen y camera, h.y. gwnewch yn siŵr bod y cefndir yn edrych yn broffesiynol, ac nad yw'n cynnwys lluniau na gwybodaeth na ddylid eu rhannu neu a allai gael eu hystyried yn amhriodol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn i 'gyfaill beirniadol' edrych beth sydd i'w weld o flaen y camera.
- c. Lleihau'r posibilrwydd y bydd anifeiliaid anwes neu aelodau o'u cartref eu hunain yn tarfu ar y wers.
- d. Bod yn ymwybodol na fydd yr holl ddysgwyr eisiau rhoi eu camera ymlaen – ddylech chi ddim eu gorfodi i roi'r camera ymlaen.
- e. Annog y dysgwyr i weithio o fan addas maen nhw'n ei rannu yn y cartref, lle maen nhw'n teimlo'n gyfforddus, a gyda'u rhiant/gofalwr os yw'n bosib.
- f. Mae'n well defnyddio clustffonau gyda meicroffon (fel y rheini sydd ar gael gyda nifer o ffonau symudol) er mwyn clywed y sain yn glir.

Ymddygiad proffesiynol

Dylai unrhyw waith ffrydio byw ddigwydd yn wirfoddol, a dylai ymarferwyr addysg sy'n dewis ffrydio'n fyw barhau i weithio mewn ffordd broffesiynol fel y byddent yn yr ystafell ddsbarth. Dylai ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- a. Cadw at safonau proffesiynol o ran gwisg pan fyddan nhw o flaen y camera.
- b. Gwneud yn siŵr bod **o leiaf ddau aelod o'r staff addysgu** ar-lein ac yn bresennol bob amser yn ystod unrhyw wers sy'n cael ei ffrydio'n fyw.
- c. **Peidio â chael gwersi un-i-un, sy'n cael eu ffrydio'n fyw, â dysgwyr.**
- d. Bod yn ymwybodol bod sylwadau'n cael eu clywed gan nifer o ddysgwyr mewn amgylchedd ar-lein, ac y byddai'n hawdd camddechongli'r sylwadau.
- e. Sicrhau eu bod yn dod â'r sesiwn i ben i **bawb**, gan wneud yn siŵr nad oes dysgwyr yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain a heb oruchwyliaeth mewn sesiwn ar ôl i'r athro adael.
- f. Bod yn ymwybodol o'r angen am gyfrinachedd; yn enwedig os ydych chi'n ffrydio gwर्स yn fyw o leoliad lle mae oedolion neu blant eraill yn bresennol.

Recordio sesiynau ffrydio byw

Mae cyfleuster recordio ar gael yn Microsoft Teams. Bydd angen i uwch dîm arwain eich ysgol lunio polisi ar gyfer recordio sesiynau ffrydio byw .

Gan fod recordiad ffrydio byw yn gyfystyr â data personol, rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau diogelu data eich ysgol a rheoliadau GDPR.

Os ydych chi'n bwriadu recordio gwers i'w rhannu â dysgwyr rywbryd eto, dylid gwneud hyn fel gweithgaredd anghydamserol heb ddysgwyr yn bresennol yn y recordiad.

Cofiwch: ni ellir defnyddio unrhyw recordiadau at unrhyw ddibenion gwerthuso athrawon.

Ymddygiad y dysgwyr

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, dylech ddweud yn glir ar ddechrau pob sesiwn beth sy'n ddisgwyliedig a pha ymddygiad sy'n dderbyniol.

Dylai ymarferwyr addysg wneud y canlynol.

- a. Cyfleu'n glir y disgwylir ymddygiad 'o safon ystafell ddosbarth' gan bawb sy'n bresennol.
- b. Gosod y disgwyliadau o'r cychwyn.
- c. Creu a chytuno ar reolau sylfaenol clir ac ar safonau ymddygiad, sy'n seiliedig ar bolisi rheoli ymddygiad presennol yr ysgol.
- d. Egluro'r rheolau wrth gyflwyno'r wers, e.e. pwy sy'n cael siarad, sut mae gofyn cwestiwn neu ofyn am help. Os dyma'r tro cyntaf i wersi gael eu cynnal ar-lein, efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser i ymgysylltu â'r amgylchedd newydd. Wrth ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, bydd modd ymgysylltu mewn ffordd strwythuredig â'r rheini sy'n bresennol.
- e. Parhau i atgoffa'r dysgwyr am y rheolau a gytunwyd ar ddechrau pob gwers (Atodiad 2), ac egluro sut gallan nhw fynegi pryderon os oes angen.

Rhagor o gefnogaeth a help

Mae gan bawb mewn gwasanaethau addysg, sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, ran i'w chwarae o ran diogelu. Os byddwch chi neu ddysgwyr yn cael problem gyda ffrydio byw, dylech ddelio â hynny yn yr un ffordd ag y byddech chi mewn lleoliad ysgol.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon diogelu am blentyn, dylech drafod y rhain â'r Uwch Berson Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant ar gyfer eich ysgol, gan sicrhau eich bod yn rhoi gwybod am eich pryderon cyn gynted â phosib.

Os na allwch chi gysylltu â'r Uwch Berson Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant ar gyfer eich ysgol am unrhyw reswm, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Plant yn yr awdurdod lleol a rhoi gwybod am eich pryderon.

Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl y funud honno, cysylltwch â'r heddlu ar 999.

Yn ogystal â hynny, mae'r Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol ar gael i helpu. Gallwch gysylltu â nhw ar 0344 3814772 neu helpline@swgfl.org.uk.

Mae rhagor o ganllawiau ar [Microsoft Teams](#) ar gael yn y Ganolfan Cymorth ar Hwb.

Atodiad 1 – Cwestiynau cyffredin

1. Beth ddylwn i ei wneud os bydd dysgwyr yn ymuno â'r dosbarth o leoliad amhriodol?

Yn ddelfrydol, byddai dysgwyr yn mewngofnodi i'r dosbarth o fan cyhoeddus yn eu cartref. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn roi baich afresymol ar y lleoedd sy'n cael eu defnyddio gan y teulu.

Dylai staff asesu pob sefyllfa, a thrafod â'r Uwch Berson Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant neu'r Pennaeth os ydyn nhw'n anghyfforddus â'r lleoliad(au) mae dysgwyr yn mewngofnodi ohonyn nhw.

2. Mae dysgwyr yn siarad neu'n ymddwyn yn amhriodol mewn gwrs sy'n cael ei ffrydio'n fyw, sut dylwn i ymateb?

Mae'r holl safonau ymddygiad arferol yn berthnasol yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Er na fydd dysgwyr mewn amgylchedd ystafell ddosbarth, pan fydd yn bosib, dylid delio â materion a fydd yn codi yn yr un ffordd ag y byddech wedi delio â nhw petai'r un peth wedi digwydd mewn amgylchedd ystafell ddosbarth arferol. Gofynnwch i uwch dîm arwain eich ysgol am gymorth os oes angen.

3. Mae dysgwyr yn rhannu rhywbeth amhriodol ar ei sgrin – beth ddylwn i ei wneud?

Gall athrawon dynnu dysgwyr o'r sesiwn os ydyn nhw'n ymddwyn yn amhriodol. I **dynnu rhywun o'r sesiwn**, agorwch y rhestr o bobl sy'n cymryd rhan (**participants**), a chlicio'r X wrth ymyl enw'r person rydych am ei **dynnu o'r sesiwn**.

Os bydd rhywbeth amhriodol yn cael ei rannu ar y sgrin, dylai athrawon ddod â'r sesiwn i ben cyn gynted â phosib a chodi'r mater gyda'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant. Yna, gellir cysylltu â'r holl ddysgwyr a oedd yn yr ystafell cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad i egluro beth ddigwyddodd, a beth yw'r trefniadau ar gyfer dosbarthiadau yn y dyfodol.

Yn unol â'r canllawiau diogelu, bydd yn rhaid i'r ymarferydd addysg ysgrifennu cofnod llawn yn ôl yr arfer.

4. Beth ddylwn i ei wneud os bydd dysgwyr yn mewngofnodi i'r wers wedi gwisgo'n anaddas?

Dylech ddelio â hyn yn yr un ffordd ag y byddech chi mewn ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, a chydymffurfio hefyd â'r rheolau a gytunwyd (Atodiad 2).

5. Mae dysgwyr yn gofyn am gael sgwrs ar-lein un-i-un am fater difrifol sy'n ei boeni. Beth yw'r protocol ar gyfer hynny?

Dylai'r staff osgoi sefyllfa un-i-un gyda dysgwr ar-lein. Os bydd dysgwr angen

trafod mater difrifol, gellir trefnu sesiwn arall ar-lein lle bydd dau aelod o staff yn bresennol yn y cyfarfod.

Os bydd dysgwr yn gwrthod cael person arall yn bresennol, bydd yn rhaid i'r athro gyfeirio'r mater at yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant.

Atodiad 2 – Cytundeb enghreifftiol i'w ddefnyddio gyda gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw

Mae athrawon yn cytuno i:

- trafod rolau a chyfrifoldebau â'r dysgwyr ar ddechrau pob gwrs
- rhoi gwybod i uwch dîm rheoli'r ysgol, i'r dysgwyr ac i'r rhieni/gofalwyr am unrhyw wersi sydd wedi'u trefnu, gwersi sydd wedi'u canslo neu newid i drefniadau
- sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r holl weithdrefnau a pholisïau perthnasol diweddaraf, gan gynnwys polisïau diogelu data, diogelu a diogelwch ar-lein
- sicrhau na fydd sefyllfa un-i-un yn digwydd ar ôl i ddsbarth ar-lein ddod i ben, drwy ddatgysylltu **pawb** yn Teams ar ddiwedd y wers.

Mae dysgwyr yn cytuno i:

- bod yn brydlon ar gyfer pob gwrs
- nôl y ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwrs ymlaen llaw, a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw y deunyddiau wrth law
- gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw bob gwefrydd (power adaptor) a gliniadur yn barod cyn i'r wers ddechrau, a'u bod wedi mewngofnodi i'r sesiwn
- dangos parch tuag at bawb yn yr ystafell ddsbarth ar-lein
- gwisgo'n addas ar gyfer pob dosbarth, gan gofio dangos parch tuag at bobl eraill
- gwneud yn siŵr eu bod yn mewngofnodi o leoliad addas, h.y. ystyried y cefndir, ongl y camera, preifatrwydd, ac ati
- ceisio cyfrannu at y dosbarth mewn ffordd gadarnhaol, a pheidio â tharfu ar y dosbarth ar unrhyw adeg
- peidio â rhannu lluniau o'r dosbarth.